**PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 17 Chwefror, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, S. Sivagnanam a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) and N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau)

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 3. DIWEDDARIAD GAN GLAM A’R RHWYDWAITH STAFF LLEIAFRIFOEDD ETHNIG –

ARGYMHELLWYD – BOD y cyflwyniad gan Rwydwaith GLAM a’r Rhwydwaith Amrywiaeth Staff (y Rhwydwaith Staff Lleiafrifol Ethnig gynt) yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 4. STRATEGAETH DDRAFFT AR GYFER CYFRANOGIAD Y CYHOEDD (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd Ddrafft yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

Mewn perthynas â’r adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. POLISI TÂL 2022/2023 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD Polisi Cyflog 2022/23 yn cael ei nodi.

Rhesymau dros yr argymhellion

Mewn perthynas â chynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. STRATEGAETH HYBU’R GYMRAEG (PW) –

ARGYMHELLWYD – BOD y Cabinet yn cael gwybod am y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau ar Strategaeth Hybu’r Gymraeg, sef:

- Yr angen i’r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu annog y gwaith o ddysgu a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i ysgolion a'r amgylchedd addysg, megis annog teuluoedd i siarad Cymraeg yn y cartref a dilyn dulliau mwy anffurfiol o addysgu'r Gymraeg y tu allan i’r ysgol yn ogystal â'r posibilrwydd o ddefnyddio 'grwpiau trafod' anffurfiol neu debyg er mwyn parhau ac ehangu gallu trigolion y Fro i siarad a deall y Gymraeg.
- Y pwysigrwydd gynnwys ac annog cyfranogiad rhieni o gefndir di-Gymraeg sydd â phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg fel rhan o Strategaeth Hybu'r Gymraeg, er mwyn helpu i sicrhau ei llwyddiant.
- Yr angen i annog Aelodau Etholedig a Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg y tu mewn a'r tu allan i'w rolau.

Rhesymau dros yr argymhellion

Galluogi'r Cabinet i ystyried barn y Pwyllgor Craffu wrth ystyried y mater hwn.

EITEM AGENDA 7. CYNLLUN CYFLWYNO BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor yn cymeradwyo'r adroddiad ymgynghori (Atodiad B) ar y Cynllun drafft a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (Atodiad A) drafft wedi'i ddiweddaru yn dilyn ymgynghoriad ac i'w argymell yn llwyr i'r Cabinet i'w ystyried.

Rhesymau dros yr argymhellion

Cymeradwyo adborth yr ymgynghoriad a'r newidiadau dilynol i'r Cynllun yn ogystal ag argymell y Cynllun i'r Cabinet i'w hystyried.

.
EITEM AGENDA 8. OLRHAIN ARGYMHELLIAD CRAFFU 3YDD CHWARTER 2021/22 AC AMSERLEN BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (PW) -

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad yn cael eu cytuno.

(2) BOD Blaenraglen Waith y Pwyllgor wedi'i diweddaru yn Atodiad B yn cael ei chymeradwyo a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar symud yr eitem ynghylch Cynllun Cyflawni Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 o fis Mawrth 2022 i fis Chwefror 2022 ar y Flaenraglen Waith, pan gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Er gwybodaeth.